**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/CS/4221/14

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5 Tachwedd 2014

Annwyl Alun,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref ynghylch y penderfyniad diweddar gan y Comisiwn Ewropeaidd i anfon barn resymedig at Lywodraeth y DU dros fethu â throsi'n llawn Gyfarwyddeb 2011//97/UE ar storio merciwri metalig sy'n cael ei ystyried fel gwastraff.

Mae'r Gyfarwyddeb yn pennu'r meini prawf ar gyfer storio gwastraff merciwri metalig yn ddiogel. Mae'n diwygio'r Gyfarwyddeb Tirlenwi i ddarparu rhanddirymiad sy'n caniatáu i wastraff merciwri metalig gael ei storio'n ddiolgel am gyfnodau hwy na 12 mis. Cafodd ei drosi yng Nghymru a Lloegr drwy'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr)(Diwygio)(Rhif 2) 2013 (OS 2013/766). Cafodd y Comisiwn ei hysbysu o'r trosiad ar 3 Mehefin 2013.

Derbyniwyd Barn Resymedig gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ar 25 Medi 2014, pan oedd y Comisiwn o'r farn bod Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon wedi methu a chyflawni ei hymrwymiadau o dan Erthygl 2 y Gyfarwyddeb hon h.y. mae'r Comisiwn yn ystyried nad yw'r trosiad hwn wedi dod i rym yng Nghymru a Lloegr, neu, waeth beth yw'r sefyllfa, nad yw'r hysbysu wedi'i wneud.

Bu fy swyddogion mewn cysylltiad â Defra yn rheolaidd am y mater hwn. Rydym yn cymeryd y mater hwn o ddifrif, ac yn hyderus bod ein deddfwriaeth yn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb. Mae'r Farn Resymedig yn herio'r dull o ddrafftio cyfreithiol y mae'r DU wedi'i ddefnyddio i weithredu'r Gyfarwyddeb hon. Sefyllfa'r DU yw bod y Gyfarwyddeb hon wedi'i throsi'n effeithiol yng Nghymru a Lloegr o'r 26 Ebrill 2013. Byddwn yn cydweithio â Defra i gytuno ar ymateb yn herio'r Farn Resymedig yn gryf ac yn rhoi eglurhad manwl o'r dulliau drafftio a ddefnyddiwyd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources